



Prosiect bwyd

Mae Menter Môn, bwyty Dylan's, y Cyngor a sefydliadau eraill wedi bod yn gweithio ar raglen lle byddwn yn trefnu bod bwyd yn cael ei gynhyrchu yng nghanolfan Dylan's yn Llangefni (*gallant gynhyrchu hyd at 1,000 o brydau'r dydd*) a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i gartrefi bregus. Fodd bynnag, nid yr holl gartrefi sy'n cysgodi ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ddelfrydol ar gyfer pobl a phroblemau iechyd meddwl sy'n aros adref oherwydd eu problemau iechyd meddwl a / neu anawsterau ariannol ac sy'n ei chael hi'n anodd fforddio bwyd, yn enwedig cost prydau parod y gellir eu cynhesu yn y meicrodon.

Bydd cartrefi sydd ar hyn o bryd yn cael eu dosbarthu fel 'cysgodi (shielded) yn cael y cynnig o becyn bwyd ar wahân yn uniongyrchol gan y Llywodraeth ac felly maent wedi'u heithrio o'r gwasanaeth hwn.

Bydd y bwyd yn cael ei ddarparu ar sail pecyn 3 diwrnod a fydd yn cynnwys brechdan i ginio a phryd maethlon y gellir ei roi yn y meicrodon i swper. Bydd bwyd yn cael ei ddanfôn i gartref yr unigolyn gan Dylan's neu'r Cyngor.

Bydd y mathau o fwyd yn cynnwys hot pot cig oen, cyri a naan a mathau eraill o fwyd meicrodon. Gellir darparu bwyd figan, llysieuol a rhydd o glwten a bydd angen gwybodaeth am alergeddau arnom. Mae hyn wedi'i gynnwys ar y ffurflen sydd wedi'i hatodi.

Y mathau o gartrefi a allai fod yn dymuno cael eu cynnwys yw:

- Y rhai hynny sydd angen defnyddio banciau bwyd
- Y rhai hynny sydd wedi colli eu gwaith oherwydd Covid-19 (hunangyflogedig / perchnogion busnes / gweithwyr)
- Y rhai hynny sy'n hunanynysu ond nad ydynt yn derbyn pecyn bwyd y Llywodraeth ond sydd mewn trafferthion ariannol
- Y rhai hynny sy'n poeni na fyddant yn cael pryd maethlon bob dydd
- Y rhai hynny sydd â swydd ond sydd heb gael eu talu oherwydd trefniadau furlough ac nad oes ganddynt lawer iawn o incwm yn dod i mewn.

Er mwyn gallu atgyfeirio, bydd angen i chi gael caniatad y sawl a fydd yn derbyn y gwasanaeth i ddarparu eu henwau, cyfeiriad, pwy sy'n byw yn eu cartref a rhif ffôn i Dylan's. Byddant ond yn defnyddio'r wybodaeth hon at ddbenion danfoniadau, dim byd arall.

Bydd y derbynnydd angen mynediad i feicrodon ac oergell er mwyn gallu storio'r nwyddau. Byddant yn para 3 diwrnod a gall pobl dderbyn bwyd ar batrwm cylchol, lle byddant yn derbyn pecynnau bwyd parhaus bob 3 diwrnod. Mae Dylan's yn gweithio ag arbenigwyr bwyd / meicro fiolegwyr i weld os oes modd iddynt greu pecynnau bwyd a fydd yn para 5 diwrnod a fydd yn golygu llai o waith danfon bob wythnos.

Er mwyn cyfeirio eich cleientiaid at y gwasanaeth hwn, llenwch y ffurflen sydd wedi'i hatodi a'i hanfon at SPOA@ynysmon.gov.uk erbyn 4pm bob dydd. Os yn bosibl, anfonwch eich ffurflenni wrth i chi weithio drwyddynt yn hytrach na bod nifer fawr yn ein cyrraedd am 4pm, byddai hynny o gymorth mawr. Os gallwch roi '**BWYD DYLAN'S / DYLAN'S FOOD**' yn y pwnc o fewn eich cyfeiriad plis.

Wedyn, byddwn yn rhannu'r wybodaeth efo Dylan's erbyn 10am a bydd y bwyd yn cael ei ddanfon y diwrnod canlynol.

Enghraifft

- Atgyfeiriad yn cael ei dderbyn dydd Iau 9 Ebrill cyn 4pm
- Cyngor yn anfon y wybodaeth at Dylan's erbyn 10am dydd Gwener 10 Ebrill
- Cartref yn derbyn cyflenwad bwyd ddydd Sadwrn 11 Ebrill

Does **DIM** angen i'r cartref dalu o gwbl am dderbyn y parseli bwyd hyn.

Mae Dylan's yn defnyddio cyflenwyr bwyd lleol (cynnyrch Cymreig) a fydd yn cefnogi ein cadwyni cyflenwi lleol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae Dylan's yn gwneud hyn am ddim a'r unig gost sydd yna yw talu am gost y cynnyrch. Mae Menter Môn yn casglu arian ar gyfer hyn drwy nifer o wahanol geisiadau am arian.

Os hoffech i'r cartref yr ydych yn ei atgyfeirio gael eu cynnwys ar broses gylchol (h.y. i dderbyn parseli bwyd gan Dylan's bob 3 diwrnod) nodwch hynny ar y ffurflen.

Y syniad tu ôl i'r prosiect hwn yw y byddwn yn lleihau ychydig ar y galw ar ein banciau bwyd ac yn gweithio gyda'r rhai hynny sydd angen parseli bwyd gan y banc bwyd. Heb os, bydd y galw ar y banciau bwyd yn parhau i gynyddu, yn enwedig ar gyfer eitemau nad ydynt yn pydru, bwyd babi, clytiau ac ati.

Gan ei bod yn wyl y banc rwan, mi fydd y archebion cyntaf angen bod i mewn erbyn dydd Mawrth 14/04/2020 4yh plis.

Mae croeso i chi gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau.

.....